



## Pecyn Croeso TAR Llwybrau Gwyddoniaeth: 2019-20

Helo bawb

Llongyfarchiadau ar ennill eich lle ar y rhaglen Bioleg gyda Gwyddoniaeth, Cemeg gyda Gwyddoniaeth neu Ffiseg gyda Gwyddoniaeth. Croeso cynnes iawn i chi!

Bydd yn flwyddyn brysur, gyffrous a heriol. Bydd y tasgau a nodir isod yn eich helpu i baratoi ar gyfer y cwrs. Ewch ati i'w cwblhau cyn i chi ddechrau ar y cwrs ym mis Medi.

### 1) CADARNHEWCH EICH LLE

Pan gewch y pecyn hwn, anfonwch e-bost ataf yn [cpugh2@cardiffmet.ac.uk](mailto:cpugh2@cardiffmet.ac.uk) er mwyn cadarnhau y byddwch yn dechrau gyda ni ym mis Medi 2019.

### 2) YMGYFARWYDDWCH Â'R MANYLEBAU TGAU A SAFON UWCH

Edrychwch ar adran Wyddoniaeth [gwefan CBAC](#). Dysgwch fwy am yr amrywiaeth o gymwysterau TGAU Gwyddoniaeth a gynigir yng Nghymru.

Ewch ati i **argraffu a chwblhau'r cyn-bapurau arholiad** canlynol ar gyfer pob un o'r tri maes pwnc gwyddoniaeth:

**TGAU 2017 HAF – GWYDDONIAETH: BIOLEG UNED 1 GWYDD.1 UWCH - PAPURAU CWESTIYNAU**

**TGAU 2017 HAF – GWYDDONIAETH: CEMEG UNED 2 GWYDD 1. UWCH - PAPURAU CWESTIYNAU**

**TGAU 2017 HAF – GWYDDONIAETH: FFISEG UNED 3 GWYDD 1. UWCH - PAPURAU CWESTIYNAU**

Wrth i chi weithio drwy'r papurau TGAU meddyliwch am rai o'r camsyniadau a fydd gan ddisgyblion efallai ynghylch rhai o'r cwestiynau ac ysgrifennwch restr ohonynt. Byddwch yn barod i ddod â'r papurau hyn a'ch syniadau gyda chi ym mis Medi. Mae bod yn ymwybodol o gamsyniadau disgyblion a'u datgelu yn hanfodol er mwyn helpu gyda'r gwaith o gynllunio addysgu a dysgu ym MHOB dosbarth. **Bydd meddu ar wybodaeth pwnc dda ar y lefel hon yn allweddol er mwyn sicrhau blwyddyn lwyddiannus.**

Dylech hefyd ymgyswngtu â'r fanyleb a'r tasgau ymarferol sy'n ofynnol ar gyfer eich pwnc arbenigol ar lefel Safon Uwch. Edrychwch ar gyn-bapurau UG BI12 a chadarnhewch eich gwybodaeth gyfredol ar y lefel hon.

### 3) GWNEWCH RYWFRAINT O WAITH DARLLEN

E.e. ewch ati i ddarlennu un o'r canlynol (neu argraffiadau cynharach) sy'n ymdrin ag addysgu uwchradd yn gyffredinol:

- Capel, S., Leask, M. a Younie, S. (2019) *Learning to teach in the secondary school*, 8<sup>fed</sup> argraffiad. Llundain: Routledge.
- Kyriacou, C. (2009) *Effective teaching in schools: theory and practice*, 3<sup>ydd</sup> argraffiad. Cheltenham: Nelson Thornes.
- Muijs, D. a Reynolds, D. (2017) *Effective teaching: evidence and practice*, 4<sup>ydd</sup> argraffiad. Llundain: Sage.

Hefyd, dylech ymgwyfarwyddo â [gwefan Dysgu Cymru](#) a'r dogfennau canlynol gan Lywodraeth Cymru sy'n ymwneud â Gwyddoniaeth yn y Cwricwlwm Cenedlaethol yng Nghymru, y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd, Cymhwysedd Digidol a'r cwricwlwm newydd arfaethedig a gaiff ei roi ar waith yn 2022.

[Rhaglen Astudio Gwyddoniaeth yng Nghwricwlwm Cenedlaethol Cymru](#)

[Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd](#)

[Fframwaith Cymhwysedd Digidol](#)

[Cwricwlwm i Gymru 2022](#)

[Cwricwlwm Drafft i Gymru – Gwyddoniaeth a Thechnoleg](#)

#### **4) EWCH ATI I ARSYLWI AR RYWFAIN O WAITH ADDYSGU GWYDDONIAETH**

Ceisiwch gael rhywfaint o brofiad yn arsylwi / helpu mewn ysgol uwchradd. Canolbwyntiwch ar y ffordd y mae'r disgyblion yn rhyngweithio â'i gilydd a'r athro, a'r ffordd y caiff y dysgu ei reoli. Os oes modd, ewch i arsylwi ar rai gwersi ymarferol. Sut y rheolir Iechyd a Diogelwch? Sut mae gwaith ymarferol a theori'n gysylltiedig yn yr ystafell ddosbarth Wyddoniaeth?

Edrychaf ymlaen at gwrdd â chi ym mis Medi a gweithio gyda chi yn ystod y cyfnod cyffrous iawn hwn i addysg yng Nghymru.

Mwynhewch y tasgau a mwynhewch yr haf.

Dymuniadau gorau

Ceri

Dr Ceri Pugh

Arweinydd y Rhaglen